Sarah Scire

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Rwy'n hynod o falch o fod wedi gweithio a gwirfoddoli yn y Trydydd Sector drwy gydol fy ngyrfa. Rwy'n gwybod o brofiad sut mae mudiadau ledled Cymru yn gweithio'n ddiflin i fod yn achubiaeth i bobl sy'n llywio systemau trawmatig, toredig – gan gynnig cymuned, diben a gobaith. Rhoi braich gyfeillgar o gwmpas ysgwydd a helpu pobl i deimlo – hyd yn oed am ennyd – eu bod yn bwysig ac y bydd pethau'n gwella. Nid rhywbeth 'braf ei gael' mo gwasanaethau'r Trydydd Sector – nhw yw'r glud sy'n cadw cymunedau gyda'i gilydd pan fo popeth arall yn mynd o chwith.

Nawr mwy nag erioed, mae angen i ni ddod ynghyd fel sector i ddod o hyd i ddatrysiadau gyda'n gilydd a dangos y rôl annatod y gall mudiadau gwirfoddol ei chwarae mewn mynd i'r afael â'r tlodi a'r anghydraddoldeb cynyddol i greu cymunedau iach, ffyniannus. Mae angen i ni alw allan y pethau sydd yn y ffordd – gan ddwyn arweinwyr gwleidyddol a ni'n hunain yn atebol os oes angen. Nid wyf yn ofn cael sgyrsiau onest pan nad yw pethau'n gweithio – ond byddaf yn gwneud hynny mewn modd sy'n adeiladu cydberthnasau dibynadwy ac yn chwilio tir cyffredin. Byddaf yn cynorthwyo CGGC i fod yn llais pwerus, arweiniol sy'n hyrwyddo ac yn dangos ein heffaith gyfunol, yn pledio'r achos dros fuddsoddiad hirdymor ac sy'n symud y pŵer yn agosach at gymunedau. Mae newid yn dechrau gyda ni.